Urdd Gobaith Cymru

# Swydd Ddisgrifiad

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Teitl y swydd :** | Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol | **Lleoliad :** | Gwersyll Glan-llyn, Swyddfa Bangor neu Wersyll Caerdydd |
| **Adran :** | Cyfathrebu a Materion Rhyngwladol | **Cyflog :** | Gweithredol 5: £30,216-£33,662 y flwyddyn |
| **Oriau Gwaith :** | Llawn Amser (35 awr yr wythnos) | **Cytundeb :** | Parhaol |
| **Yn adrodd i :** | Rheolwr Cyhoeddiadau a Chyfathrebu | **Rheolaeth Llinell :** | Dim |

## Prif bwrpas y swydd:

Rydym yn chwilio am Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol profiadol ac uchelgeisiol i arwain ac ychwanegu gwerth at ein llwyfannau digidol sy’n cynnwys amryw o sianeli cyfryngau cymdeithasol gan sicrhau fod ein cyfathrebu yn berthnasol, apelgar ac amserol.

Byddi yn gweithio gyda’n Cyfarwyddwr a Rheolwr Cyfathrebu i ddatblygu ein strategaeth cyfryngau cymdeithasol gan gydweithio’n agos gydag aelodau’r tîm i ddarparu ymgyrchoedd llwyddiannus ar ein cyfryngau cymdeithasol sy’n arddangos yr Urdd fel mudiad blaengar a chyfoes gan lwyddo i gyrraedd amcanion yr ymgyrchoedd yn effeithlon.

## Prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau:

1. Arwain ar holl gynnwys cyfryngau cymdeithasol prif gyfrifon yr Urdd a sicrhau ein bod yn ymgysylltu’n effeithlon gyda’n cynulleidfa ar y sianeli pwrpasol gyda chynnwys apelgar.
2. Creu a rheoli strategaeth cyfryngau cymdeithasol i’r Urdd.
3. Creu asedau digidol fel fideo a ffeithluniau ar gyfer y cyfryngau cymdeithasol neu ddigwyddiadau addas.
4. Creu ymgyrch gynhwysfawr a chreadigol ar gyfer ein cyfryngau cymdeithasol ar gyfer prif ymgyrchoedd yr Urdd. Bydd hyn yn golygu gwaith creu a chomisiynu cynnwys addas.
5. Bod yn effro a blaengar i ddigwyddiadau ac ymgyrchoedd eraill ar y cyfryngau cymdeithasol i sicrhau fod yr Urdd yn gyfredol a chefnogol pan yn addas.
6. Monitro sylwadau, sgyrsiau ac ymatebion ar draws cyfrifon cymdeithasol yr Urdd gan adrodd yn ôl i’r adrannau perthnasol.
7. Cynghori, arwain a hyfforddi swyddogion eraill o fewn adrannau'r Urdd i sicrhau fod eu cynnwys nhw yn apelgar a phwrpasol i’w gweithgareddau.
8. Rhedeg hysbysebion ar y cyfryngau cymdeithasol (pan fo’n addas) gan gynghori ar y platfformau fwyaf addas a monitro gwerth ac ymateb.
9. Datblygu amcanion a dulliau mesuradwy i fesur effaith ein hymgysylltu ar y cyfryngu cymdeithasol gan greu adroddiadau cyson i’r Cyfarwyddwr ac ar adegau i’r adrannau pwrpasol.
10. Rheoli ein perthynas gyda chwmni monitro cynnwys cyfryngau cymdeithasol.
11. Comisiynu cwmnïau neu unigolion allanol i greu cynnwys ar gyfer cyfryngau

cymdeithasol yr Urdd.

12. Cydweithio gyda'r Rheolwr Cyhoeddiadau a Chyfathrebu (sy'n gyfrifol am drosolwg y wefan) i sicrhau fod llif y wefan, cynnwys a strwythur yn gweithio.
13. Sicrhau llif traffig i'r wefan neu i'r cyfrwng fwyaf addas er mwyn sicrhau cynnydd mewn gweithgaredd e.e. mynychwyr ar gyrsiau'r gwersylloedd.
14. Gwasanaethu fel ymgynghorydd i staff yr Urdd ar ddatblygu cynnwys addas ar gyfer y cyfrifon amrywiol a niferus.
15. Mynychu digwyddiadau a/neu weithgareddau amrywiol y mudiad er mwyn eu hadlewyrchu ar y cyfryngau cymdeithasol (bydd hyn yn golygu cyfnodau o weithio oddi cartref).
16. Bod yn effro i sicrhau bob cyfle i hyrwyddo gwaith y mudiad.
17. Ymateb i ddatblygiadau, llwyfannau a chyfleoedd newydd o fewn y byd digidol i sicrhau bod y mudiad yn defnyddio'r cyfryngau mwyaf diweddar a pherthnasol.

Yn ddibynnol ar gyfarwyddyd y Cyfarwyddwr Cyfathrebu cyfrannu fel aelod o dîm at holl waith yr adran gan ddangos y gallu i fod yn hyblyg o ran y tasgau y gofynnir i'r swyddog ymdrin â hwy.

---

## Manyleb y person a'r meini prawf: Cymwysterau, sgiliau a phrofiad

*Nodiadau i ymgeiswyr:*

- *I ymgeisio, mae'n rhaid llenwi'r ffurflen gais yn llawn, gan roi enghreifftiau i gefnogi eich atebion. Mae'n rhaid i chi ddangos eich bod yn cwrdd â'r holl feini prawf hanfodol i gael eich cynnwys ar y rhestr fer.*
- *Ar ôl y dyddiad cau, ni fydd yr hysbyseb swydd hon ar gael ar ein Gwefan, felly cofiwch gadw copi ar gyfer eich cofnodion.*

| **Hanfodol:** | **Dymunol:** |
|---|---|
| 1. Profiad helaeth mewn swydd o fewn maes cyfryngau cymdeithasol.<br>2. Profiad o redeg ymgyrchoedd llwyddiannus ar y cyfryngau cymdeithasol.<br>3. Profiad o gynhyrchu a chreu cynnwys addas ar ffurf lluniau a ffilm gan ddefnyddio meddalwedd addas.<br>4. Profiad o weithio gyda Meta Business Suite a Google Analytics.<br>5. Profiad o weithio ar feddalwedd monitro a gwerthuso cyfryngau cymdeithasol.<br>6. Gwybodaeth drylwyr o dirlun diwylliannol Cymru a thirlun y maes cyfryngau cymdeithasol.<br>7. Iaith ysgrifenedig gywir yn y Gymraeg a'r Saesneg fyddai'n gallu creu cynnwys | 1. Profiad yn gweithio mewn rôl gyffelyb yn arwain cyfathrebu cyfryngau cymdeithasol sefydliad.<br>2. Profiad o weithio ar wefannau i greu cynnwys apelgar a defnyddio 'analytics' i sicrhau fod ein gwefan yn ateb galw ein cwsmeriaid a'n cynulleidfa.<br>3. Cymhwyster o fewn maes marchnata digidol.<br>4. Y gallu i brawf ddarllen gwaith yn y Gymraeg a'r Saesneg.<br>5. Trwydded yrru lawn. |

addas i gynulleidfa.

8. Y gallu i weithio dan bwysau i gwrdd â therfynau amser yn gyson.
9. Sgiliau cynllunio cadarn a'r profiad o allu blaengynllunio gwaith sawl prosiect er mwyn cadw i amserlen.
10. Y gallu i weithio ar eich liwt eich hun, gan flaenoriaethu gwaith yn ôl y galw.
11. Sgiliau rhyngbersonol a'r gallu i weithio'n effeithiol fel aelod o dîm.

**Newidiadau i'r Swydd Ddisgrifiad :** Gall y disgrifiad swydd hwn newid neu gael ei ddiwygio ar unrhyw amser ar ôl ymgynghori â deiliad y swydd.

**Hyblygrwydd:** Tynnir eich sylw at y ffaith fod dyletswyddau a chyfrifoldebau penodol mewn rhai achosion yn anodd eu dadansoddi yn fanwl a gallent newid o dro i dro heb newid cymeriad cyffredinol y dyletswyddau na lefel y cyfrifoldeb.

Yn ychwanegol, mae'n ofynnol i bob aelod o'r staff dderbyn elfennau o hyblygrwydd yn eu dyletswyddau a'u cyfrifoldebau, a phan fo angen, cyfnewid er mwyn cyfarfod anghenion a gofynion y gwasanaeth sy'n newid yn barhaus. Bydd angen o'r fath yn galluogi i arbenigedd penodol y deilydd dyfu a datblygu er lles y cyflogwr a'r gweithiwr.

**Adolygiad:** Cyhoeddwyd y disgrifiad swydd yma ym mis Hydref 2024 ac fe'i hadolygir yn gyson fel rhan o ddatblygiad yr unigolyn, ynghyd ag adolygiad perfformiad.

## CRYNODEB O'R TELERAU, AMODAU A BUDDIANNAU

(ceir manylion llawn yn y Llawlyfr Staff)

| | |
|---|---|
| **Teitl y swydd:** | Swyddog Cyfryngau Cymdeithasol a Marchnata Digidol |
| **Cyfnod prawf:** | Bydd cyfnod prawf o 6 mis |
| **Gwiriad GDG:** | Mae'n bosib bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd llwyddiannus gael ei wirio gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (GDG) oherwydd lleoliad gwaith. |
| **Archwiliad meddygol:** | Cedwir yr hawl i ofyn i'r sawl a benodir i gael archwiliad meddygol cyn cynnig y swydd yn ffurfiol. |
| **Cyflog:** | Penodir ar Bwynt 1 ar y raddfa berthnasol, oni bai fod profiad/cymhwyster arbennig yn denu un pwynt ychwanegol. Yn Ebrill bob blwyddyn, bydd staff fel arfer yn symud un pwynt oddi mewn i'r raddfa gyflog hyd nes y byddant yn cyrraedd pwynt 4. Mae hyn ar yr amod bod aelod o staff yn gyflogedig gan y mudiad ar 31ain o Ragfyr a heb gyrraedd pen y raddfa. |
| **Gwyliau blynyddol:** | Caniateir 25 niwrnod o wyliau blynyddol ac wyth niwrnod o wyliau cyhoeddus. Bydd y gwyliau'n cynyddu i 28 diwrnod ar ôl 5 mlynedd o wasanaeth ac yna i 33 diwrnod ar ôl 10 mlynedd o wasanaeth. |
| **Diwrnod Anrhydeddus Dydd Gŵyl Dewi:** | Ar wahân i'ch gwyliau blynyddol, mae gan staff yr hawl i gymryd Dydd Gŵyl Dewi i ffwrdd fel diwrnod anrhydeddus blynyddol. Caiff staff rhan-amser hawl pro-rata i'r diwrnod anrhydeddus hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr. |
| **Diwrnod Pen-blwydd:** | Yn ychwanegol i'ch hawl gwyliau blynyddol, rhoddwn yr hawl i staff gymryd diwrnod eu Pen-blwydd i ffwrdd fel diwrnod o wyliau blynyddol. Caiff staff rhan amser hawl pro rata i'r diwrnod hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr. |

| | |
|---|---|
| **Diwrnod Lles:** | Yn ychwanegol i'ch hawl gwyliau blynyddol, wedi cyfnod o 6 mis yn y swydd ac ar ddiwedd cyfnod prawf llwyddiannus, rhoddwn yr hawl i staff gymryd 1 diwrnod y flwyddyn fel Diwrnod personol i'w Lles.<br>Caiff staff rhan amser hawl pro rata i'r diwrnod hwn gan selio diwrnod llawn ar 7 awr. |
| **Profion Llygaid:** | Byddwn fel mudiad yn derbyn cyfrifoldeb i dalu am brofion llygaid pob dwy flynedd i'r staff hynny sy'n defnyddio Unedau Arddangos Gweledol (VDU) am o leiaf 50% o'u hamser. Mae modd hawlio hwn drwy ei gynnwys ar ffurflen gostau arferol. |
| **Yswiriant Bywyd:** | Yn dilyn cwblhau 6 mis yn y swydd byddwch yn ymuno a chynllun yswiriant bywyd yr Urdd sydd yn cynnig yswiriant cyfwerth a 3 gwaith eich cyflog blynyddol trwy gydol eich cyflogaeth gyda'r Urdd hyd at oed 70. |
| **Disgownt i staff:** | Mae modd cael gostyngiad o :<br>- 20% ar nwyddau yn Siop yr Urdd i gyd.<br>- 50% ar wyliau i aros yn y gwersylloedd<br>- Tocynnau i Eisteddfod yr urdd |
| **Cynllun Beicio:** | Wedi pasio eich cyfnod prawf llwyddiannus bydd modd i staff elwa o gynllun Beicio'r Urdd, sy'n gynllun aberthu cyflog mewn cydweithrediad gyda CycleScheme. Yn ddibynnol ar eich graddfa, gellir prynu beic ac /neu offer gwerth hyd at £3,000. |
| **Pensiwn:** | Bydd cyfle i ddewis i ymuno â chynllun pensiwn 6% yr Urdd ar unwaith, neu mae'n bosibl byddwch yn cael eich cofrestru i gynllun 'Ymgofrestru Awtomatig'. |
| **Cinio am ddim:** | Ar hyn o bryd, cynigwn ginio cynnes am ddim i holl staff sy'n gweithio yn y gwersylloedd neu yn ymweld a'r gwersylloedd. |